Gwers: I ble mae eich arian yn mynd?

Amcanion Dysgu:

- Llunio graffiau priodol gan ddefnyddio TGCh.
- Dadansoddi data o dablau a graffiau.
- Deall ble mae'r teulu cyffredin yn gwario eu harian/cost byw.
- Dechrau ystyried cyllid personol a sut i reoli arian.

I ddechrau: Taflwch syniadau 'Ble mae teuluoedd yn gwario eu harian?' Dangoswch graff i'r disgyblion (taflunydd neu fwrdd gwyn) gan guddio'r labeli. Dylai'r disgyblion gyfateb y labeli â'r graff.	**Disgyblion** Cynnig syniadau ar gyfer gweithgaredd taflu syniadau. Dyfalu beth yw'r labeli ar gyfer y siart bar. Dysgu faint mae'r teulu cyffredin yn ei wario mewn wythnos.	**Athro** Hwyluso gweithgaredd taflu syniadau. Cynorthwyo'r disgyblion i labelu. Dangos labeli'r graff. Os byddwch yn defnyddio bwrdd gwyn, dylech guddio'r labeli gyda blychau testun a'u tynnu pan fydd angen.
Prif dasg: Trafodwch ddata i'w ddangos fel canran o siart cylch. Defnyddiwch ddataset i edrych ar dueddiadau gwario ar gyfer eitemau unigol/gwasanaethau o 1978-2003. Bydd pob tîm yn edrych ar un gwasanaeth/maes gwario.	**Disgyblion** Arsylwi/creu siart cylch canrannau o'r data o'r gweithgaredd dechreuol. Creu graff cyfres amser yn dangos y tueddiad yn eu maes gwario. Ysgrifennu nodiadau yn esbonio eu canfyddiadau.	**Athro** Creu siart cylch gyda'r disgyblion. Cynorthwyo'r disgyblion i greu eu graffiau. Cofiwch, os ydych yn defnyddio Excel bydd angen i chi lunio gan ddefnyddio XY Scatter, nid Graff Llinell. Os oes angen, rhoi'r disgyblion mewn grwpiau/timau.
Sesiwn lawn: Adborth gan y disgyblion ar eu canfyddiadau. Trafodwch incwm unigol y disgyblion, arian poced, swyddi rhan amser ac ati. Ble maent yn gwario eu harian? Sut maent yn cyllido? A ydynt yn cynilo?	**Disgyblion** Adborth o ganfyddiadau o'u graffiau. Cymryd rhan mewn trafodaeth ddosbarth ar eu harferion gwario unigol.	**Athro** Dod â syniadau'r dosbarth ynghyd, arddangos eu graffiau. Trafod eu harferion gwario gyda'r disgyblion.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Dyfalu faint mae teulu cyffredin yn ei wario, ceisio llunio graffiau, cymryd rhan mewn trafodaethau.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Llunio graff ac yn disgrifio'r tueddiad, rhoi atebion ar ble a sut maent yn gwario eu harian.
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi rhesymau dros eu hatebion, rhoi fformat priodol i'r graffiau, rhoi cynnig ar y dasg ymestyn.

Adnoddau:
Mynediad i feddalwedd taenlenni, taflunydd/bwrdd gwyn ar gyfer y gweithgaredd dechreuol/siart cylch

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Trafodaeth ac adborth gan y dosbarth cyfan, Gwaith tîm/unigol ar gyfer y brif weithgaredd

Geiriau allweddol: Gwario, Cyllido, Siart bar, Siart cylch, Gwariant, Canran, Cyfartaledd, Cartref, Incwm.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd: (argymhellir ar gyfer Disgyblion CA4)** Mathemateg: MA4 Trin Data Mathemateg: MA2 2e) Canrannau TGCh: Defnyddio taenlenni a llunio graffiau. AIBCh: 1e/4d Dinasyddiaeth: 1e)2a

Gwybodaeth Flaenorol:
Defnydd syml o Daenlenni, Llunio graffiau, Dadansoddi graffiau.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth ddosbarth, Allbwn taenlenni, Graffiau wedi'u llunio.

Gweithgaredd Ymestyn:
Defnyddiwch y data yn y daenlen i archwilio tueddiadau mewn nwyddau para yn y cartref. Ysgrifennwch adroddiad, gyda dadansoddiad, ar y canfyddiadau.

Syniadau Gwaith Cartref:
Y disgyblion i edrych ar gyllideb eu teulu eu hunain a chymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Nodiadau:
I weld cyflwyniad i'r adroddiad ewch i:
http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=284
I weld yr adroddiad llawn ar 'Family Spending' ewch i:
http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_social/Family_Spending_2002-03/Family_Spending_2002-03.pdf
Llwythwch y daenlen i'r ardal a rennir i'r disgyblion gael mynediad iddi.

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad